Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth**
**Ysgol Gynradd Cefn Coch**
**Stryd Yr Ysgol**
**Penrhyndeudraeth**
**Gwynedd**
**LL48 6AE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth yn lleoliad meithrin cofrestredig a sefydlwyd saith mlynedd yn ôl mewn caban yn Ysgol Gynradd Cefn Coch. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol i blant pentref Penrhyndeudraeth a'r ardal wledig o'i gwmpas.

Mae 16 o blant rhwng dyflwydd a hanner a phedair oed yn mynychu'r lleoliad.  Ar hyn o bryd, mae nawg ohonynt yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn cynnig pum sesiwn wythnosol o ddwy awr am 38 wythnos y flwyddyn.  Daw bron pob plentyn o gartrefi lle siaradir Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd. Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn wedi'i ariannu, gydag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd llawn-amser a phedair ymarferydd rhan-amser.  Maent oll wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2012 a chan Estyn yn Rhagfyr 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd a rhifedd;
- y rhan fwyaf yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol;
- yr holl blant yn dweud eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn ymddiried yn yr ymarferwyr;
- profiadau dysgu yn sbarduno diddordeb a dychymyg pob plentyn;
- darpariaeth drwyadl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- addysgu yn gyson dda a bod gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr o anghenion personol ac addysgol pob plentyn;
- darpariaeth gadarn ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant; a
- phwyslais cryf ar ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth yn dda a synnwyr cryf o ddiben i waith y lleoliad;
- ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn;
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth gref i'r arweinydd a'r rhieni;
- yr arweinydd a'r ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r hyn sydd angen ei wella;
- hunan-arfarnu eisoes wedi arwain at welliannau yn yr ardaloedd dysgu;
- plant yn elwa'n sylweddol o'r bartneriaeth gref sydd rhwng y lleoliad a'r ysgol; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant.
2. Sefydlu trefniadau mwy systematig ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd plant.
3. Dirprwyo mwy o gyfrifoldebau rheolaethol i aelodau staff.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ac ystyried eu hoedran a'u man cychwyn ar fynediad i'r lleoliad, mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistic ym mhob maes dysgu. Yn ystod sesiynau torfol, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adalw dysgu blaenorol yn gyflym ac yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau da wrth iddynt weithio ar dasgau penagored. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig. Wrth iddynt ymwneud â thasgau o ddewis eu hunain, mae bron pob plentyn yn arbrofi ac ymchwilio'n hyderus. Maent yn fodlon mentro ac yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae safonau mewn medrau llythrennedd yn dda. Wrth iddynt drafod gydag oedolion neu gymryd rhan mewn sesiynau torfol, mae bron pob plentyn yn arddangos medrau siarad a gwrando da. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu syniadau'n glir, er enghraifft, wrth drafod eu hoff gymeriad mewn stori, ac yn gwrando'n feddylgar ar gyfraniadau plant eraill yn y grŵp. Mae pob plentyn yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau stori ac yn mwynhau eu cynnwys gyda neu heb oedolyn. Mae pob un yn trin llyfr fel darllenwr gyda'r rhan fwyaf yn gallu rhestru geiriau sy'n cychwyn gyda llythyren benodol.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus yn ystod ei weithgareddau dydd-i-ddydd a'i chwarae. Maent i gyd yn ymuno'n frwdfrydig gyda'r dosbarth wrth gydgyfrif rhifau 1 i 10 gyda'r mwyafrif ohonynt yn cyfrif hyd at bum gwrthrych yn ddibynadwy. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu rhoi nifer o dedis mewn potyn i gyd-fynd â'u hoed. Mae bron pob un yn cofnodi rhifau trwy wneud marciau ac yn dechrau deall y cysyniad o 'un yn fwy.' Wrth iddynt brynu a gwerthu yn y 'siop y ganolfan arddio', mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth briodol o bwrpas arian.

Er bod y rhan fwyaf o'r plant yn ddefnyddwyr hyderus o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae diffyg o offer addas yn cyfyngu ar eu cynnydd yn y maes.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn dweud eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas glos gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Nodwedd amlwg o'r lleoliad yw ymddygiad da'r rhan fwyaf o'r plant a'r gofal sydd ganddynt tuag at ei gilydd. Mae llawer o'r plant yn ystyriol o deimladau plant eraill. Wrth ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, maent yn cydweithio'n gytûn. Yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth ac yn fodlon dyfalbarhau gydag un dasg dros gyfnod estynedig.

Mae bron pob plentyn yn fodlon ymgymryd â chyfrifoldebau megis ymgymryd â dyletswyddau 'Helpwr Heddiw' a hunan-gofrestru. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy ddarparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu o dan do a'r tu allan, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i sbarduno diddordeb a dychymyg pob plentyn a sicrhau ymglymiad i'w dysgu. Mae'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n addas er mwyn sicrhau ymdriniaeth addas dros gyfnod â phob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys a pherthnasol i oedran a galluoedd plant. Mae'r arfer o gyflwyno'r cwricwlwm drwy themâu yn arwain at brofiadau dysgu cydlynnus sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau a gwybodaeth flaenorol plant. Enghraifft dda o hyn yw'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu dychmygus sydd wedi deillio o'r thema gyfredol 'Yn Yr Ardd.'

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned leol ar gyfer cyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, bydd plant yn cerdded llwybrau cyfagos ac yn ymweld â rhai o siopau lleol er mwyn anfon llythyrau neu brynu nwyddau.

Mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plant eu hunain a'r rheini sydd o dan gyfarwyddyd yr ymarferwyr ac sy'n canolbwyntio ar addysgu medrau penodol, megis gwneud printiau gyda phetalau blodau a phaent lliwgar. Mae parodrwydd ymarferwyr i ymateb i syniadau'r plant yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddilyn trywyddion dysgu gwahanol i'r rhai a gynlluniwyd.

Mae darpariaeth drwyadl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae ymarferwyr yn gyson yn annog plant i wrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar oedolion ac i gyfrannu'n hyderus yn ystod sesiynau torfol. Mae arfer yr ymarferwyr o gyd-chwarae gyda phlant yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt sgwrsio'n anffurfiol gydag unigolion a grwpiau bychain o blant. Mae'r amrywiaeth o lyfrau yn y gornel ddarllen yn denu diddordeb llawer o'r plant ac yn darparu cyfleoedd da iddynt ymddwyn fel darllenwyr. Yn yr ardal graffeg, caiff plant eu hannog i wneud marciau i bwrpas gydag amrediad o ddeunyddiau megis pinnau ffelt a chreonau ac i ddatblygu eu medrau 'motor.'

Mae'r plant wedi dysgu nifer helaeth o rigymau rhif ar y cof ac yn cael cyfleoedd da i'w defnyddio ar gyfer tasgau ar y cyd megis cyfrif faint o blant sy'n bresennol yn y dosbarth.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau rhifedd plant ac mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle yn ystod sesiynau i gyfrif gwahanol deganau a gwrthrychau. Mae gweithgareddau megis adeiladu gyda blociau neu wneud jig-sos yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu cysyniadau mathemategol plant.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau

uchel o bob plentyn ac maent yn darparu gwaith sy'n cyfateb yn dda â gallu ac anghenion yr holl blant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm ac mae rhyngweithio da iawn rhyngddynt a phlant. Mae bron pob tasg yn cynnwys her addas ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, caiff syniadau'r plant eu herio a'r dysgu ei symud ymlaen. Wrth ymuno yn y chwarae, mae'r ymarferwyr yn gallu sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan bob gweithgaredd i'w gynnig. Pan gyfyd achosion prin o ymddygiad annerbyniol neu anghydfod rhwng unigolion, mae ymarferwyr yn eu datrys yn gadarn a sensitif.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac maen ganddynt wybodaeth drylwyr o anghenion personol ac addysgol pob plentyn. Mae safon adborth llafar staff i blant ynglŷn yr hyn y maent yn ei wneud yn gymorth mawr i unigolion ddeall yr hyn maent wedi'i gyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid oes trefniadau systematig ar gyfer cofnodi arsylwadau dyddiol ymarferwyr ac mae hyn yn amharu ar effaith asesu fel arf ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Mae trefniadau addas ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth briodol am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod amgylchedd cynnes a chroesawgar yn y lleoliad a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr Heddiw' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae trefniadau addas yn y lleoliad ar gyfer ailgylchu a lleihau sbwriel.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae'r arweinydd yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol os cyfyd unrhyw bryder ynghylch lles neu ddatblygiad plentyn.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fuan pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.  . Nodweddion amlwg iawn o’r lleoliad yw’r amgylchedd ddysgu hynod o ddiddorol a grëir ynddo a’r cyfleoedd a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da bron ym mhob maes dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae’r cyflenwad o adnoddau TGCh yn gyfyng ac nid ydynt yn cynnig digon o gyfleodd i blant ddatblygu ystod digon eang o fedrau yn y maes.   Mae’r ystafell ddosbarth ynghyd â’r ardal y tu allan, o faint digonol ac o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan blant ac oedolion.

Mae’r defnydd a wna’r lleoliad o’r parc chwarae cyfagos ynghyd â’r llwybrau lleol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Llwydda’r arweinydd i roddi synnwyr cryf o ddiben i waith y lleoliad a chreu ethos lle mae plant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae’n cyfleu disgwyliadau uchel ac wedi sefydlu nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant.  Mae sesiynau wedi’u trefnu a’u rheoli effeithiol er mwyn sicrhau'r gefnogaeth orau posib i blant.  Mae gwaith tîm effeithiol iawn gydag ymarferwyr yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas.  Maent yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.  Er bod rolau staff wedi eu diffinio’n glir yn ystod sesiynau, nid oes trefniadau addas ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau i unigolion. O ganlyniad, mae baich cyfrifoldebau’r arweinydd yn rhy drwm.

Mae'r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol megis bwyta’n iach a dysgu yn yr awyr agored.

Mae’r Pwyllgor Rheoli wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad yr arweinydd a’r ymarferwyr.  Mae hyn yn arwain at dargedau cytûn ac at welliannau mewn addysgu a darpariaeth.

Mae swyddogion y pwyllgor yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol iawn ac yn darparu cefnogaeth gref i’r arweinydd a rhieni’r plant.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r arweinydd a’r ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau’r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i’w wella.  Maent yn hunan-arfarnu’n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau.  Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ond nid oes

trefniadau cyffelyb ar gyfer gwrando ar lais y plant.  Mae'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol gyda'r arweinydd a'r staff yn gweithredu'n bwrpasol ar unrhyw argymhellion sy'n dilyn ei hymweliadau.  Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da ac wedi deillio ar gynlluniau gwelliant buddiol sy'n rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad dros y ddwy flynedd nesaf.  Mae'r sylw a roddwyd yn ddiweddar i fireinio'r ddarpariaeth barhaus wedi cyfoethogi'r ardaloedd dysgu'n sylweddol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol mae'r lleoliad wedi'i meithrin gyda nifer o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant.  Mae ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng y lleoliad a'r rhieni  Darperir cyfleoedd cyson i rieni fynegi barn ar waith y lleoliad ac mae'r ymarferwyr ar gael iddynt ar gychwyn a diwedd pob sesiwn.  Mae'r arweinydd yn gwneud yn siŵr bod gan rieni wybodaeth gyfredol am drefniadaeth y lleoliad a datblygiad eu plant.

Mae'r ysgol gynradd yn gefnogol iawn i waith y lleoliad ac yn manteisio ar bob cyfle i gynnwys y plant meithrin yn ei rhaglen waith.  Mae'r cysylltiadau agos sydd rhwng ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen yn hwyluso trefniadau trosglwyddo yn sylweddol ac yn arwain at well dilyniant a pharhad yn addysg plant.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer dda o wasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol i gydlynu a chyflwyno profiadau dysgu ac i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i blant a rhieni.  Mae ymweliadau rheolaidd a chyngor proffesiynol yr athrawes gefnogol yn galluogi'r arweinydd i ddiweddaru ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth broffesiynol ac i arbrofi gyda blaengareddau newydd.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae staff ac adnoddau yn cael eu rheoli'n fedrus iawn gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol.  Mae parodrwydd staff i fynychu hyfforddiant yn cryfhau'r addysgu ac yn hyrwyddo safonau da.

Mae diwylliant cryf o gydweithio, gydag ymarferwyr yn agored iawn i gyngor a syniadau newydd.  Maent yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda gyda'i gilydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o gyllideb y lleoliad ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Maent yn arfarnu penderfyniadau gwariant yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |